# SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cynorthwyydd yr Oergell Gymunedol – Staff Myfyrwyr |
| **RHEOLWR LLINELL:** | Pennaeth Cyfleoedd Myfyrwyr / Cydlynydd Gwirfoddoli |
| **CYFLOG:** | £12 yr awr (Cyflog Byw Go Iawn) |
| **ORIAU:** | 6 awr yr wythnos, 156 awr i'w gweithio'n hyblyg ar ôl eu trafod tan 31/05/2025 |

**DIBEN Y RÔL**
Yn ddiweddar cawsom grant gan y Rhwydwaith Oergelloedd Cymunedol i'n cefnogi i sefydlu oergell gymunedol. Fel y Cynorthwyydd Oergell Cymunedol, chi fydd wrth wraidd rôl hollbwysig yn ein cefnogi ar hyd y daith hon drwy helpu sefydlu'r oergell gymunedol fel prosiect gwirfoddoli. Mae hwn yn gyfle gwych i gael ystod eang o brofiadau wrth gefnogi ymatebion allweddol un o'r undebau i'r argyfwng costau byw i fyfyrwyr.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

**1. Prif ddyletswyddau:**
Prif ddyletswyddau:
- Cynllunio a Chydlynu Prosiect:
- Cydweithio â staff allweddol, gwirfoddolwyr, a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gynllunio gweithrediad y prosiect oergell cymunedol.
- Datblygu amserlen a chynllun gweithredu ar gyfer y broses sefydlu, gan sicrhau cydymffurfiad â pholisïau a rheoliadau priodol.

Ymrwymiad Cymunedol:
- Hyrwyddo cysyniad yr oergell gymunedol i fyfyrwyr, cyfadrannau a staff, gan annog cyfranogiad a chefnogaeth.
- Trefnu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a digwyddiadau i addysgu'r gymuned am bwysigrwydd lleihau gwastraff bwyd a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a rennir.

Lleoliad a Logisteg:
- Gweithio gyda staff allweddol i sicrhau bod lleoliad yr oergell gymunedol yn briodol ac yn bodloni anghenion myfyrwyr. Nodi meysydd i'w datblygu a gweithio gyda staff allweddol i roi cynlluniau datblygu ar waith.
- Sicrhau bod lleoliad yr oergell gymunedol yn parhau i fod yn hygyrch a chydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch.
- Cydlynu logisteg ar gyfer cludo, storio a dosbarthu eitemau bwyd.
- Goruchwylio'r sianeli cyfathrebu ar gyfer yr oergell gymunedol, gan gynnwys e-bost y prosiect a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, archwilio sianeli eraill i ysgogi ymgysylltiad.

Recriwtio a Hyfforddi Gwirfoddolwyr:

- Recriwtio a hyfforddi tîm o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli i gynorthwyo gyda gweithrediadau dyddiol yr oergell gymunedol.
- Trefnu sesiynau ymgyfarwyddo i addysgu gwirfoddolwyr am ddiogelwch bwyd, hylendid, a chenhadaeth gyffredinol y prosiect.

Partneriaethau a Nawdd:
- Sefydlu partneriaethau gyda busnesau lleol, archfarchnadoedd, a ffermwyr i sicrhau rhoddion bwyd rheolaidd.
- Ceisio nawdd neu grantiau i gefnogi costau parhaus yr oergell gymunedol.

Cadw Cofnodion ac Adrodd:
- Cadw cofnodion cywir o restrau bwyd, rhoddion, ac amserlenni gwirfoddolwyr.
- Cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar gyfer Undeb y Myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill, gan amlygu effaith a chynnydd yr oergell gymunedol.

Mentrau Cynaladwyedd:
- Archwilio cyfleoedd i wneud yr oergell gymunedol yn ariannol gynaliadwy trwy ddigwyddiadau codi arian, partneriaethau, neu fentrau eraill.
- Gweithredu arferion ecogyfeillgar, megis compostio ac ailgylchu, i gyd-fynd â nodau cynaliadwyedd.

Digwyddiadau a Rhaglenni Cymunedol:
- Trefnu digwyddiadau neu raglenni cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr oergell gymunedol, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a chyfrifoldeb a rennir.

**2. Dyletswyddau eraill:**
- Hyrwyddo UMAber yn gadarnhaol a chynnal ei werthoedd a'i bolisïau.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau drwy'r Undeb cyfan. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo adrannau eraill â'u gweithgareddau a'u gwasanaethau
- Mae arferion gorau o ran yr amgylchedd yn gyfrifoldeb holl staff Undeb y Myfyrwyr.
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

**Newidiadau yn y Swydd Ddisgrifiad**

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd ar ôl ymgynghori â deilydd y swydd.

*Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.*

MANYLEB Y PERSON – CYNORTHWYYDD YR OERGELL GYMUNEDOL

| MEINI PRAWF | Angenrheidiol | Cais | Cyfweliad |
|---|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | | | |
| Addysg gyffredinol dda, cyfystyr â Safon Uwch/Lefel A | Hanfodol | √ | |
| PROFIAD | | | |
| Dangos profiad o ryngweithio gyda phobl mewn rôl (gwaith taledig neu wirfoddoli) | Dymunol | √ | |
| Profiad o gynllunio a threfnu digwyddiadau | Dymunol | √ | |
| Profiad o weithio ar brosiectau bychain, deilo â data, ac ysgrifennu adroddiadau. | Dymunol | √ | √ |
| GWYBODAETH | | | |
| Dealltwriaeth o faterion yn y Brifysgol/neu yr Undeb Myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| NODWEDDION/SGILIAU | | | |
| Myfyriwr/wraig Prifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd | Hanfodol | √ | |
| Y gallu i ymddwyn yn broffesiynol gyda myfyrwyr a chleientiaid o'r Brifysgol a'r tu allan, drwy e-bost, ffôn neu yn wyneb-yn-wyneb. | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i fagu a chynnal perthnasoedd gweithio cryf. | Hanfodol | | √ |
| Sgiliau Rhyngbersonol a Chyfathrebu Rhagorol (Ysgrifenedig a Llafar) | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i fod yn greadigol ac arloesol yn hyrwyddo ystod o wasanaethau/gweithgareddau i gynulleidfa eang ac amrywiol. | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i oresgyn rhwystrau a phroblemau mewn ffordd adeiladol. | Hanfodol | √ | √ |
| Bod yn hyderus ac yn fedrus tra yn mynd ati i weithio'n allanol gan gynnwys siarad â myfyrwyr. | Hanfodol | √ | v |
| Sgiliau rheoli prosiectau da. | Hanfodol | √ | √ |
| Dealltwriaeth ac ymroddiad dros hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb ac arferion cynhwysol. | Hanfodol | √ | √ |
| Sgiliau prosesu gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif, a'i chyfleu mewn ffordd sensitif i fyfyrwyr a chleientiaid. | Dymunol | √ | |
| Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | √ | √ |
| Sgiliau mewn TG, gan gynnwys dealltwriaeth drylwyr o Microsoft Office, dealltwriaeth dda o offer cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Twitter a gwaith gwefan. | Hanfodol | √ | √ |